



CORFFORAETH ADDYSG BELLACH COLEG GWENT

OFFERYN AC ERTHYGLAU LLYWODRAETHU

Dyddiad Cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:	
Cymeradwywyd gan:	Y Bwrdd
Dyddiad Cymeradwyo:	Ionawr 2019
Awdur:	Corfforaeth
Dyddiad Adolygu:	Hydref 2020

Cyhoeddwyd:	Gwefan (✓)	Mewnwyd (✓)	Porth Dysgwyr (✓)
	✓		

Ar gael mewn ffont mawr neu ffurfiau eraill. Gofynnwch.

Gall y copi hwn ddyddio os caiff ei argraffu

OFFERYN LLYWODRAETHU

CYNNWYS

1. Dehongli termau
2. Cyfansoddiad y Bwrdd
3. Penderfynu ar Niferoedd yr Aelodau
4. Penodi Aelodau
5. Penodi'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd
6. Penodi'r Swyddog Llywodraethu
7. Personau sy'n anghymwys i fod yn Aelodau o'r Gorfforaeth
8. Tymhorau Gwasanaeth
9. Terfynu Aelodaeth
10. Buddiannau mewn Materion sy'n Ymwneud â'r Sefydliad
11. Cyfarfodydd
12. Cworwm
13. Trafodion
14. Mynediad i Gyfarfodydd
15. Cofnodion
16. Cyhoeddi Papurau
17. Lwfansau i Aelodau
18. Newid Enw
19. Dodi Sêl y Gorfforaeth
20. Offeryn Llywodraethu

Dehongli

1. Yn yr Offeryn Llywodraethu hwn mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:
 - Llywodraeth Cymru* Llywodraeth ddatganoledig Cynulliad Cymru, ei Gweinidogion a'i swyddogion.
 - Y Gorfforaeth* Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gwent, y mae'r offeryn hwn yn gymwys iddi.
 - Yr offeryn hwn* Yr Offeryn Llywodraethu hwn
 - Y Bwrdd* Corff llywodraethol a Bwrdd Corfforaeth Coleg Gwent
 - Materion staff* Yn cyfeirio at benodi, tâl, amodau gwasanaeth, dyrchafiad, ymddygiad, gwahardd, diswyddo neu ymddeoliad unrhyw aelod o staff Coleg Gwent.
 - Diwrnod gwaith* Dydd Llun i ddydd Gwener yn gynhwysol, ac eithrio gwyliau banc neu wyliau cyhoeddus.
 - Sgiliau angenrheidiol* Sgiliau a phrofiad, ar wahân i gymwysterau proffesiynol, a ddynodir gan y Gorfforaeth fel rhai y mae angen i Aelodau'r Gorfforaeth feddu arnynt. Nodir ystyron i'r rhain yng Nghymal 2.
 - Aelod Staff/Aelod-fyfyriwr*
 - Cadeirydd* Cadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth
 - Is-gadeirydd* Is-gadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth
 - Swyddog Llywodraethu* Person sydd wedi'i benodi'n Swyddog Llywodraethu i Gorfforaeth Coleg Gwent.
 - Y sefydliad* Y Sefydliad Addysg Bellach (a/neu ei is-gwmnïau) y mae'r Gorfforaeth wedi'i sefydlu i'w arwain dan bwerau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac unrhyw Ddeddfau a deddfwriaeth ddilynol.

Cyfansoddiad y Bwrdd

2. (1) Mae'r Bwrdd i gynnwys:
 - (i) Y Pennaeth/Prif Weithredwr
 - (ii) dau aelod o staff y sefydliad
 - (iii) dau fyfyrwr o'r sefydliad
- (2) O'r ddau aelod sy'n aelodau o staff, bydd un yn aelod o'r staff addysgu a bydd y llall yn aelod o'r staff nad ydynt yn addysgu. Bydd y ddau yn cael eu henwebu i'w penodi trwy broses etholiadol sy'n agored i'r holl staff.
- (3) Detholir yr aelodau sy'n fyfyrwyr trwy etholiad sy'n agored i holl fyfyrwyr y sefydliad lle mae'r ymgeiswyr wedi'u henwebu a'u hethol gan gorff y myfyrwyr.

Penderfynu ar niferoedd yr aelodau

3. (1) O fewn ei Reolau Sefydlog, bydd y Bwrdd yn cyhoeddi cyfansoddiad y Bwrdd a'r broses benodi ar gyfer Llywodraethwyr y sefydliad.
- (2) Gall y Bwrdd amrywio cyfansoddiad y Llywodraethwyr fel y'i nodir yn y Rheolau Sefydlog ar unrhyw adeg, cyn belled â bod lleiafswm gofynion cymal 2 yn cael eu bodloni a bod dogfen wedi'i diweddarau yn cael ei chyhoeddi yn unol â 3 (1).

Penodi Aelodau

4. (1) Y Bwrdd sydd â'r awdurdod i benodi ei aelodau.
- (2) Gall y Bwrdd (fel awdurdod penodi) wrthod penodi person yn aelod os:
 - (a) bydd yn sicr bod y person wedi'i symud o swydd yn aelod o unrhyw gorfforaeth addysg bellach arall o fewn y deng mlynedd ddiwethaf; neu
 - (b) y byddai penodi'r person hwnnw yn mynd yn groes i unrhyw reol a wnaed dan Erthygl 17 yr Erthyglau Llywodraethu ynghylch nifer y tymhorau gwasanaeth y gall rhywun eu gwneud; neu
 - (c) nad yw'r person yn gymwys i fod yn aelod o'r Bwrdd oherwydd gofynion cymal 7 yr Offeryn hwn.
- (3) Pan fydd unrhyw swydd Llywodraethwr yn dod yn wag, bydd y Bwrdd (fel awdurdod penodi) yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i benodi aelod newydd i'r swydd wag cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ond heb fod yn hwy na chwe mis ar ôl i'r swydd ddod yn wag.
- (4) Mae pob penodiad yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd a chwblhau'r gwiriadau perthnasol. Bydd gofyn i holl aelodau'r Gorfforaeth gwblhau gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd DBS.

Penodi'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd

5. (1) Bydd y Bwrdd yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd o blith ei aelodau ei hunan.
- (2) Nid yw'r Pennaeth/Prif Weithredwr na'r aelodau sy'n staff neu'n fyfyrwyr yn gymwys i gael eu penodi'n Gadeirydd neu'n Is-Gadeirydd, nac i weithredu fel Cadeirydd neu Is-Gadeirydd yn eu habsenoldeb.
- (3) Os Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ill dau'n absennol o unrhyw gyfarfod o'r Bwrdd, bydd yr aelodau sy'n bresennol, yn ddarostyngedig i 5(2), yn dewis rhywun o'u plith i weithredu fel Cadeirydd/Is-Gadeirydd.
- (4) Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn gwasanaethu am gyfnod a ddiffinnir gan y Bwrdd ac a nodir yn y Rheolau Sefydlog.
- (5) Gall y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd ymddiswyddo ar unrhyw adeg trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Swyddog Llywodraethu.
- (6) Os bydd y Bwrdd wedi'i argyhoeddi bod y Cadeirydd yn anaddas neu'n anabl i gyflawni swyddogaethau'r swydd, gall roi rhybudd ysgrifenedig sy'n disodli'r Cadeirydd o'i swydd a bydd y swydd yn wag.
- (7) Os bydd y Bwrdd wedi'i argyhoeddi bod yr Is-Gadeirydd yn anaddas neu'n anabl i gyflawni swyddogaethau'r swydd, gall roi rhybudd ysgrifenedig sy'n disodli'r Is-Gadeirydd o'i swydd a bydd y swydd yn wag.

- (8) Bydd y Bwrdd yn penodi Cadeirydd newydd o blith ei aelodau naill ai yn y cyfarfod olaf cyn diwedd tymor gwasanaeth y Cadeirydd, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn ymddiswyddiad y Cadeirydd.
- (9) Bydd y Bwrdd yn penodi Is-Gadeirydd newydd o blith ei aelodau naill ai yn y cyfarfod olaf cyn diwedd tymor gwasanaeth yr Is-Gadeirydd, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn ymddiswyddiad yr Is-Gadeirydd.
- (10) Bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn gymwys i gael eu hailbenodi ar ddiwedd eu cyfnodau yn y swyddi. Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, gallant wasanaethu am hyd at chwe blynedd ar y mwyaf.

Penodi'r Swyddog Llywodraethu

- 6. (1) Bydd y Bwrdd yn penodi person i'w wasanaethu fel Swyddog Llywodraethu annibynnol; ni ellir penodi'r Pennaeth/Prif Weithredwr yn Swyddog Llywodraethu.
- (2) Os yw'r Swyddog Llywodraethu yn absennol dros dro, bydd y Bwrdd yn penodi person i fod yn Swyddog Llywodraethu dros dro; ni ellir penodi'r Pennaeth/Prif Weithredwr yn Swyddog Llywodraethu dros dro.
- (3) Ystyrir bod unrhyw gyfeiriad at y Swyddog Llywodraethu yn yr Offeryn hwn a'r Erthyglau Llywodraethu yn cynnwys Swyddog Llywodraethu dros dro a benodir o dan baragraff (2).
- (4) Yn ddarostyngedig i gymal 13(8), mae gan y Swyddog Llywodraethu hawl i fynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau.
- (5) Gall y Swyddog Llywodraethu fod yn aelod o staff y sefydliad.

Personau sy'n anghymwys i fod yn aelodau o'r Gorfforaeth

- 7. (1) Ni all unrhyw un dan 18 oed fod yn aelod, ac eithrio fel aelod sy'n fyfyrwr.
- (2) Ni all y Swyddog Llywodraethu fod yn aelod.
- (3) Heblaw am aelodau a etholir gan y staff a'r Pennaeth/Prif Weithredwr, ni all unrhyw aelod o staff fod yn aelod.
- (4) Yn ddarostyngedig i baragraffau (6) a (7), bydd person yn cael ei anghymhwysu rhag gwasanaethu, neu rhag parhau i wasanaethu fel aelod os bydd y person hwnnw wedi ei ddyfarnu'n fethdalwr neu os bydd yn destun gorchymyn cyfyngu methdaliad, gorchymyn cyfyngu methdaliad interim neu ymgymeriad cyfyngu methdaliad yn unol â'r ystyr yn Neddf Ansolfedd 1986(2) (neu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol ddilynol), neu os yw'r person hwnnw wedi gwneud compownd neu drefniant â chredydwyr, gan gynnwys trefniant gwirfoddol unigol.
- (5) Pan fydd person wedi'i anghymhwysu oherwydd ei fod wedi ei ddyfarnu'n fethdalwr a/neu unrhyw un o'r amgylchiadau a nodir ym mharagraff (4), bydd y gwaharddiad hwnnw yn dod i ben:

- (a) pan fydd y person hwnnw'n cael ei ryddhau o fethdaliad, oni bai bod y gorchymyn methdaliad wedi cael ei ddiddymu cyn hynny; neu
 - (b) os caiff y gorchymyn methdaliad ei ddiddymu, ar ddyddiad y diddymiad hwnnw; neu
 - (c) os caiff y gorchymyn cyfyngiadau methdaliad ei ddirymu o ganlyniad i gais o dan adran 375 Deddf Ansolfedd 1986, ar y dyddiad pan orchmynnwyd hynny gan y Llys; neu
 - (d) os caiff y gorchymyn cyfyngiadau methdaliad interim ei ddiddymu gan y Llys, ar ddyddiad y diddymiad hwnnw; neu
 - (e) os caiff yr ymgymeriad cyfyngiadau methdaliad ei ddiddymu, ar ddyddiad y diddymiad hwnnw.
- (6) Pan fydd person wedi'i anghymhwysu rhag bod yn aelod oherwydd ei fod wedi gwneud compownd neu drefniant, gan gynnwys trefniant gwirfoddol unigol, ac yna ei fod yn talu'r dyledion yn llawn, bydd yr anghymhwysiad yn dod i ben ar y dyddiad pan fydd y taliad wedi'i gwblhau ac mewn unrhyw achos arall bydd yn dod i ben ar ddiwedd tair blynedd o'r dyddiad pan gaiff amodau'r weithred gompownd, y trefniant neu'r trefniant gwirfoddol unigol eu bodloni.
- (7) Yn ddarostyngedig i baragraff (9), ni fydd person yn gymwys i wasanaethu, neu barhau i wasanaethu, fel aelod:
- (a) os yw'r person hwnnw wedi ei ddyfarnu'n euog o fewn y pum mlynedd blaenorol, boed yn y Deyrnas Unedig neu rywle arall, o unrhyw drosedd ac wedi cael dedfryd o garchar (boed wedi'i gohirio ai peidio) am gyfnod o dri mis neu fwy, heb gael dewis o ddirwy ; neu
 - (b) os yw'r person hwnnw wedi ei ddyfarnu'n euog yn unol â'r disgrifiad yn is-baragraff (i) o fewn yr ugain mlynedd blaenorol ac wedi cael dedfryd o garchar, boed wedi'i gohirio neu beidio, am gyfnod o fwy na dwy flynedd a hanner; neu
 - (c) os yw'r person hwnnw wedi ei ddyfarnu'n euog yn unol â'r disgrifiad yn is-baragraff (i) ar unrhyw adeg ac wedi cael dedfryd o garchar, boed wedi'i gohirio neu beidio, am fwy na phum mlynedd.
- (8) At ddibenion y rheoliad hwn, bydd unrhyw ddyfarniad gan neu gerbron llys y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn cael ei anwybyddu os yw'r dyfarniad hwnnw'n seiliedig ar ymddygiad na fyddai wedi bod yn drosedd pe bai wedi digwydd o fewn y Deyrnas Unedig o dan y gyfraith a oedd mewn grym yn y Deyrnas Unedig ar y pryd.
- (9) Os bydd aelod o'r Bwrdd yn dod yn anghymwys i barhau yn ei swydd yn rhinwedd paragraffau (5) neu (8), rhaid i'r aelod hysbysu'r Swyddog Llywodraethu o'r ffaith honno ar unwaith.

Tymhorau Gwasanaeth

8. (1) Bydd aelod o'r Bwrdd yn gwasanaethu ac yn gadael y swydd yn unol â thelerau'r penodiad, ond ni fydd hyd eu tymor yn fwy na thair blynedd.
- (2) Ar ddiwedd tymor eu gwasanaeth, bydd yr aelodau'n gymwys i gael eu hailbenodi, ond ni fydd unrhyw aelod yn gwasanaethu mwy na thri thymor yn olynol, na chyfanswm o naw mlynedd a bydd cymal 4 yn berthnasol o ran ailbenodi aelod.

Terfynu aelodaeth

9. (1) Gall aelod ymddiswyddo ar unrhyw adeg trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Swyddog Llywodraethu.
- (2) Os bydd y Bwrdd wedi'i argyhoeddi bod unrhyw aelod o'r Bwrdd yn anaddas neu'n anabl i gyflawni ei gyfrifoldebau fel Llywodraethwr, neu wedi bod yn absennol o gyfarfodydd y Bwrdd am chwe mis yn olynol heb ganiatâd, yna gall y Bwrdd ddisodli'r aelod hwnnw o'r swydd, gan roi rhybudd ysgrifenedig.
- (3) Bydd aelodau'r Bwrdd sy'n aelodau staff a/neu'r Pennaeth/Prif Weithredwr, yn peidio â bod yn aelodau o'r Bwrdd pan fyddant yn peidio â bod yn gyflogedig gan y Coleg.
- (4) Rhaid i Fyfyriwr sy'n Llywodraethwr beidio â bod yn aelod o'r Bwrdd:
- (i) ar ddiwedd ei dymor gwasanaeth; neu
 - (ii) os caiff ei ddiarddel o'r sefydliad; neu
 - (iii) pan fydd yn gadael y sefydliad.

Buddiannau mewn materion sy'n ymwneud â'r sefydliad

10. (1) Ni chaiff unrhyw aelod gymryd neu ddal unrhyw fuddiant mewn unrhyw eiddo a ddelir neu a ddefnyddir at ddibenion y Sefydliad, oni bai eu bod wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru.
- (2) Os oes gan aelod unrhyw fudd ariannol mewn unrhyw waith neu nwyddau a gyflenwir i'r Sefydliad neu at ddibenion y Sefydliad, neu os oes ganddynt gontract neu gontract arfaethedig, yn ymwneud â'r Sefydliad, neu unrhyw fudd arall a bennir gan y Bwrdd ar unrhyw fater sy'n ymwneud â'r sefydliad, yna rhaid i'r aelod hwnnw:
- (a) ddatgelu natur a graddfa'r budd hwnnw i'r Bwrdd neu i unrhyw un o bwyllgorau'r Bwrdd; a
 - (b) ymneilltuo o unrhyw ran o gyfarfod y Bwrdd neu ei bwyllgorau lle bydd trafodaeth neu bleidlais ar faterion yn ymwneud â'r cyflenwad, y contract neu'r mater arall hwnnw i; a
 - (c) beidio â chael ei gyfrif/ei chyfrif yng nghworwm presenoldeb y cyfarfod ar gyfer eitem sy'n ymwneud â phenderfyniad nad oes ganddo/ganddi hawl i bleidleisio arno.
- (3) Bydd y Swyddog Llywodraethu yn cadw Cofrestr Buddiannau aelodau'r Bwrdd a bydd y buddiannau hynny yn cael eu datgelu i'r Bwrdd. Bydd y Gofrestr Buddiannau ar gael i'r cyhoedd.
- (4) Nid yw'r cymal hwn yn berthnasol pan fo'r Bwrdd yn ystyried a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud ag yswiriant aelodau rhag rhwymedigaethau a ddaw yn sgil eu swydd fel aelod o'r Bwrdd, nac yn atal y Bwrdd rhag cael a thalu am yswiriant o'r fath.

Cyfarfodydd

11. (1) Bydd y Bwrdd yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith bob blwyddyn academiaidd, ac yn cynnal unrhyw gyfarfodydd eraill y mae'n barnu eu bod yn angenrheidiol.
- (2) Bydd yr holl gyfarfodydd yn cael eu galw gan y Swyddog Llywodraethu a fydd yn cyhoeddi rhybudd o'r cyfarfod, agenda ac unrhyw bapurau cysylltiedig o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod.
- (3) Os bwriedir ystyried materion sy'n ymwneud â thâl, amodau gwaith, ymddygiad, gwaharddiad, diswyddo neu ymddediad y Swyddog Llywodraethu, yna bydd y Cadeirydd (ac nid y Swyddog Llywodraethu) yn cyhoeddi manylion yr eitem agenda honno ac unrhyw bapurau perthnasol o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod.
- (4) Gellir galw cyfarfod arbennig o'r Bwrdd gan y Cadeirydd (neu yn ei absenoldeb, yr Is-gadeirydd), neu ar gais ysgrifenedig unrhyw bum aelod o'r Bwrdd. Os bydd y Cadeirydd (neu yn ei absenoldeb, yr Is-Gadeirydd) yn datgan bod materion sydd angen sylw brys, yna gall roi cyfarwyddyd i alw'r cyfarfod gyda llai na phum niwrnod o rybudd.
- (5) Rhaid i bob aelod o'r Bwrdd weithredu er lles y Gorfforaeth. O'r herwydd, ni ddylai aelodau gael eu rhwymo gan unrhyw eirchion a roddir iddynt gan unrhyw sefydliad neu berson arall.
- (6) Gellir bodloni'r gofynion i roi hysbysiad o gyfarfod a nodir ym mharagraffau (2), (3) a (4) trwy gyfathrebu electronig.

Cworwm

12. (1) Er mwyn cael cworwm mewn cyfarfod o'r Bwrdd, rhaid i'r nifer o aelodau sy'n bresennol fod o leiaf 50% o gyfanswm nifer yr aelodau fel y'i pennir yng nghymal 3.
- (2) Os nad yw'r nifer o aelodau sy'n bresennol ar gyfer cyfarfod yn ffurfio cworwm, ni ellir cynnal y cyfarfod.
- (3) Os bydd y nifer sy'n bresennol yn syrthio islaw'r cworwm yn ystod cyfarfod, bydd y cyfarfod ffurfiol yn cael ei derfynu ar unwaith ac ni ellir cynnal unrhyw bleidlais na gwneud unrhyw benderfyniad.
- (4) Os na ellir cynnal neu barhau â chyfarfod oherwydd nad oes cworwm, bydd y Cadeirydd yn galw cyfarfod arbennig ar y dyddiad cyfleus cynharaf.

Trafodion

13. (1) Bydd pob mater y mae angen penderfynu arno yng nghyfarfod y Bwrdd yn cael ei benderfynu trwy fwyafrif syml o bleidleisiau'r aelodau hynny sy'n bresennol ac yn

gymwys i bleidleisio. Os bydd pleidlais yn rhannu'n gyfartal, bydd gan Gadeirydd y cyfarfod bleidlais fwrw.

- (2) Ni all aelod bleidleisio trwy ddirprwy neu drwy bleidlais bost. Mae gan y Cadeirydd ryddid i benderfynu a ddylid caniatáu cymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell drwy ddefnyddio technoleg (e.e. Skype, galwad cynadledda, etc) ai peidio.
- (3) Ni ellir diddymu nac amrywio unrhyw benderfyniad gan aelodau mewn cyfarfod dilynol oni bai ystyried diddymu neu amrywio'r penderfyniad wedi'i restru fel eitem benodol ar agenda'r cyfarfod hwnnw.
- (4) Rhaid i aelod o'r Bwrdd sydd hefyd yn aelod o staff y Sefydliad, gan gynnwys y Pennaeth/Prif Weithredwr, ymneilltuo:
 - (a) o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod lle mae materion staff sy'n ymwneud â'r aelod hwnnw o staff yn unig (yn hytrach nag yn ymwneud â phob aelod o staff, neu grŵp o staff) i gael eu hystyried;
 - (b) o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod lle mae ei ailbenodiad ef neu hi, neu benodiad ei olynydd, i'w benderfynu;
 - (c) os bydd yn ofynnol gan fwyafrif yr aelodau eraill sy'n bresennol, o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod lle mae materion staff yn ymwneud ag unrhyw aelod o staff sydd mewn swydd uwch na'i swydd ei hun yn cael eu hystyried;
a
 - (d) os bydd yn ofynnol gan fwyafrif yr aelodau eraill sy'n bresennol, o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod lle mae trafodaethau yn ymwneud â thâl neu amodau unrhyw aelod o staff, neu'r holl aelodau, yn cael eu hystyried.
- (5) Gan nad ydynt yn gyfreithiol yn gallu ymrwymo i gontract, ni all aelod sy'n fyfyrwr sydd o dan 18 oed bleidleisio mewn unrhyw gyfarfod o'r Bwrdd nac unrhyw bwyllgor o'r Bwrdd, ar unrhyw fater sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf neu fater fyddai'n golygu bod y coleg yn ymrwymo i gontract neu'n mynd i ddyled/rhwymedigaeth.
- (6) Ac eithrio fel y darperir gan reolau a wneir o dan erthygl 13(3) yr Erthyglau Llywodraethu sy'n ymwneud â disgyblaeth myfyrwyr, bydd aelod sy'n fyfyrwr yn ymneilltuo o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod lle bydd ei ymddygiad, ei wahardd neu ei ddiarddel, neu'r materion hyn mewn perthynas ag unrhyw fyfyrwr yn cael eu hystyried.
- (7) Os bydd y Bwrdd neu unrhyw bwyllgor o'r Bwrdd yn trafod materion staff sy'n ymwneud ag aelod neu ddarpar aelod o staff y Sefydliad, bydd aelod sy'n fyfyrwr yn:
 - (a) peidio â chymryd rhan yn yr ystyriaeth na'r drafodaeth ar y mater, ac ni fydd yn pleidleisio ar unrhyw gwestiwn mewn perthynas â'r mater; a
 - (b) os bydd yn ofynnol iddo wneud hynny gan fwyafrif o'r aelodau eraill sy'n bresennol (heblaw am aelodau sy'n fyfyrwyr), ymneilltuo o'r cyfarfod.
- (8) Bydd y Swyddog Llywodraethu:
 - (a) yn ymneilltuo o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod lle mae ei dâl, amodau gwasanaeth, ymddygiad, gwaharddiad, diswyddiad neu ymddeoliad, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Swyddog Llywodraethu, yn cael eu hystyried;
ac
 - (b) os yw ef neu hi yn aelod o staff y Sefydliad, bydd yn ymneilltuo mewn unrhyw achos lle bo angen o dan baragraff (4).

- (10) Os bydd yn ofynnol i'r Swyddog Llywodraethu ymneilltuo o gyfarfod, neu ran o gyfarfod, bydd y Bwrdd neu'r pwyllgor yn penodi person o blith yr aelodau i weithredu fel Swyddog Llywodraethu nes bydd yn dychwelyd. Ni ellir penodi'r Pennaeth/Prif Weithredwr yn Swyddog Llywodraethu dros dro.
- (11) Bydd unrhyw ddeiliad swydd uwch (ac eithrio'r Swyddog Llywodraethu) sy'n bresennol mewn cyfarfod yn ymneilltuo o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod lle bydd ei dâl, amodau gwasanaeth, ymddygiad, gwaharddiad, diswyddiad neu ymddeoliad yn cael eu hystyried neu os gofynnir iddo wneud hynny gan Gadeirydd y Bwrdd/pwyllgor.

Mynediad i gyfarfodydd

14. (1) Bydd y Bwrdd yn penderfynu ar unrhyw gwestiwn ynghylch a ddylid caniatáu i berson nad yw'n aelod o'r Bwrdd nac yn Swyddog Llywodraethu fynychu unrhyw un o'i gyfarfodydd. Wrth wneud ei benderfyniad, bydd y Bwrdd yn ystyried gofynion cymal 16(2).
- (2) Heblaw am aelodau'r Gorfforaeth, dim ond y personau canlynol sydd â hawl i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd (yn amodol ar gymal 13):
 - Y Swyddog Llywodraethu
 - Deiliaid Swyddi Uwch
 - Uchafswm o ddau arsylwr a benodir gan Lywodraeth Cymru.

Cofnodion

15. (1) Paratoir cofnodion ysgrifenedig o bob cyfarfod o'r Bwrdd a byddant yn cael eu hystyried fel eitem ar yr agenda yn y cyfarfod nesaf.
- (2) Nid oes angen ystyried cofnodion y cyfarfod diwethaf fel eitem agenda mewn cyfarfod arbennig. Lle nad ydynt yn cael eu hystyried, byddant yn cael eu hystyried fel eitem agenda yn y cyfarfod nesaf sydd wedi'i drefnu nad yw'n gyfarfod arbennig.
- (3) Bydd y cofnodion sy'n cael eu hystyried fel eitem agenda, ac yn cael eu derbyn, yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnod gwir a chywir.
- (4) Bydd cofnodion ar wahân yn cael eu cymryd o'r rhannau hynny o gyfarfodydd y mae gofyn i unrhyw aelod neu'r Swyddog Llywodraethu ymneilltuo ohonynt yn unol â chymal 13. Nid oes gan unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo ymneilltuo o gyfarfod hawl i weld y cofnodion, nac unrhyw bapurau cysylltiedig, ar gyfer y rhan honno o'r cyfarfod.
- (5) Bydd unrhyw benderfyniad a wneir trwy benderfyniad ysgrifenedig yn cael ei ffeilio fel pe bai'n set o gofnodion, i'w nodi fel gwybodaeth yn unig yn y cyfarfod nesaf.

Cyhoeddi papurau

16. (1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, bydd y Bwrdd yn sicrhau bod copi o bob un o'r dogfennau canlynol ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag sy'n ymarferol:
- (a) Yr agenda ar gyfer pob cyfarfod o'r Bwrdd a'i bwyllgorau
 - (b) Cofnodion wedi'u cymeradwyo a'u llofnodi o bob cyfarfod o'r Bwrdd a'i bwyllgorau
 - (c) Unrhyw adroddiad neu ddogfen a ystyriwyd mewn cyfarfod o'r fath.
- (2) Gellir eithrio'r eitemau canlynol o ofynion paragraff (1):
- (a) Deunydd sy'n ymwneud â rhywun wedi'i enwi sy'n weithiwr cyflogedig neu'n ddarpar-weithiwr i'r Sefydliad.
 - (b) Deunydd sy'n ymwneud â rhywun wedi'i enwi sy'n fyfyrwr yn y Sefydliad, neu'n ymgeisydd i'w dderbyn i'r Sefydliad.
 - (c) Deunydd sy'n ymwneud â'r Swyddog Llywodraethu.
 - (d) Gwybodaeth ar unrhyw fater y mae'r Bwrdd wedi'i argyhoeddi y dylid ymdrin ag ef yn gyfrinachol.
- (3) Caiff eitemau sydd wedi'u heithrio o dan 16(2)(d) eu hadolygu'n flynyddol a'u darparu os/pan fyddant yn peidio â bod yn gyfrinachol.

Lwfansau i Aelodau

17. (1) Gall y Gorfforaeth ad-dalu unrhyw gostau rhesymol i aelodau o'r Bwrdd am deithio, cynhaliaeth neu lwfansau eraill a benderfynir gan y Bwrdd.
- (2) Ni ddylai'r Bwrdd, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, dalu unrhyw lwfansau sy'n rhoi tâl i aelodau am eu gwasanaethau fel Llywodraethwr.

Newid enw

18. Dim ond gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru y gall y Gorfforaeth newid ei henw.

Dodi Sêl y Gorfforaeth

19. Mae dodi Sêl Gyffredin y Gorfforaeth yn gam y mae'n rhaid ei ddilysu drwy:
- (a) llofnod y Cadeirydd neu aelod arall a awdurdodir naill ai'n gyffredinol neu'n benodol gan y Bwrdd i weithredu at y diben hwnnw; a
 - (b) llofnod y Pennaeth/Prif Weithredwr.

Offeryn Llywodraethu

20. (1) Rhoddir copi o'r Offeryn Llywodraethu hwn i bob aelod ar adeg eu penodiad.

(2) Bydd copi o'r Offeryn Llywodraethu hwn ar gael i'r cyhoedd.

Atodlen 2

ERTHYGLAU LLYWODRAETHU

Cynnwys

1. Dehongli termau
2. Rhedeg y Sefydliad
3. Cyfrifoldebau'r Bwrdd
4. Dirprwyo Swyddogaethau a Phwyllgorau
5. Penodi i Swyddi Uwch
6. Ymddygiad y Staff
7. Rhyddid Academaidd
8. Gwahardd Staff Dros Dro
9. Diswyddo Deiliaid Swyddi Uwch
10. Diswyddo Staff ac eithrio Deiliaid Swyddi Uwch
11. Gwahardd Dros Dro a Diswyddo'r Swyddog Llywodraethu
12. Gweithdrefnau Cwyno
13. Myfyrwyr
14. Materion Ariannol ac Archwilio
15. Archwilio Mewnol
16. Cyfrifon Blynnyddol
17. Gwneud Rheolau

Dehongli

1. (1) Yn yr Offeryn Llywodraethu hwn mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

<i>Yr Erthyglau hyn</i>	Y ddogfen Erthyglau Llywodraethu hon
<i>Llywodraeth Cymru</i>	Llywodraeth ddatganoledig Cynulliad Cymru, ei Gweinidogion a'i swyddogion.
<i>Y Gorfforaeth</i>	Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gwent, y mae'r offeryn hwn yn gymwys iddi.
<i>Y Bwrdd</i>	Corff llywodraethol a Bwrdd Corfforaeth Coleg Gwent
<i>Materion staff</i>	Yn cyfeirio at benodi, tâl, amodau gwasanaeth, dyrchafiad, ymddygiad, gwahardd, diswyddo neu ymddeoliad unrhyw aelod o staff Coleg Gwent.
<i>Diwrnod gwaith</i>	Dydd Llun i ddydd Gwener yn gynhwysol, ac eithrio gwyliau banc neu wyliau cyhoeddus.
<i>Aelod Staff/Aelod-fyfyriwr</i>	Yr ystyron a roddir iddynt yng Nghymal 2 yr Offeryn Llywodraethu.

<i>Cadeirydd</i>	Cadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth
<i>Is-gadeirydd</i>	Is-gadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth
<i>Swyddog</i>	Person sydd wedi'i benodi'n Swyddog Llywodraethu i Gorfforaeth Coleg Gwent.
<i>Llywodraethu</i>	
<i>Swydd uwch</i>	Swyddi'r Pennaeth/Prif Weithredwr, dau Is-Bennaeth a'r Swyddog Llywodraethu.

Y Sefydliad Y Sefydliad Addysg Bellach (a'i is-gwmnïau) y mae'r Gorfforaeth wedi'i sefydlu i'w arwain dan bwerau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac unrhyw Ddeddfau neu ddeddfwriaeth ddilynol.

- (2) Mae'r penawdau yn y ddogfen hon er hwylustod yn unig ac nid ydynt yn effeithio ar ddehongliad yr Erthyglau hyn.

Rhedeg y sefydliad

2. Mae'r sefydliad i'w redeg yn unol â darpariaethau'r Deddfau Addysg fel y diffinnir "Education Acts" yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996, ac yn unol ag unrhyw ddarpariaethau a wneir yn unol â'r Deddfau Addysg hynny, unrhyw Ddeddfau Addysg dilynol, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, unrhyw reoliadau, gorchmynion neu gyfarwyddiadau a wneir neu a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn ddarostyngedig iddynt, yn unol â darpariaethau'r Offeryn Llywodraethu, yr Erthyglau hyn, unrhyw reolau a wneir o dan yr Erthyglau hyn ac unrhyw weithred ymddiriedolaeth sy'n rheoleiddio'r sefydliad.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd

3. (1) Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:
- (a) benderfynu cymeriad addysgol a chenhadaeth y sefydliad ac am oruchwyllo ei weithgareddau;
 - (b) defnyddio adnoddau yn effeithiol ac yn effeithlon, solfedd a chynaliadwyedd ariannol y sefydliad a diogelu ei asedau;
 - (c) cymeradwyo amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant;
 - (d) penodi, gwerthuso, gwahardd a phenderfynu ar dâl ac amodau gwasanaeth deiliaid swyddi uwch, gan gynnwys y Swyddog Llywodraethu;
 - (e) diswyddo deiliaid swyddi uwch a'r Clerc diswyddo deiliaid swyddi uwch, gan gynnwys y Swyddog Llywodraethu (gan gynnwys, pan fo'r Swyddog Llywodraethu wedi'i benodi, neu i'w benodi, yn aelod o'r staff, ei ddiswyddo yn rhinwedd ei swyddogaeth fel aelod o'r staff);
 - (f) gosod fframwaith ar gyfer tâl ac amodau gwasanaeth yr holl staff eraill; a
 - (g) sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer goruchwyllo gwaith academaidd y sefydliad, gan gynnwys trefniadau ar gyfer derbyn, asesu ac arholi myfyrwyr a'r gweithdrefnau ar gyfer diarddel myfyrwyr am resymau academaidd.
- (2) Yn ddarostyngedig i gyfrifoldebau'r Bwrdd, y Pennaeth fydd Prif Weithredwr y sefydliad a bydd yn gyfrifol am:
- (a) gyflwyno cynigion i'r Bwrdd am gymeriad addysgol a chenhadaeth y sefydliad, ac am weithredu penderfyniadau'r Bwrdd;

- (b) trefnu, cyfarwyddo a rheoli'r sefydliad ac arwain y staff;
 - (c) penodi, pennu gwaith, graddio, gwerthuso, gwahardd a phenderfynu, o fewn y fframwaith a bennir gan y Bwrdd, ar dâl ac amodau gwasanaeth staff ac eithrio deiliaid swyddi uwch, gan gynnwys y Swyddog Llywodraethu;
 - (d) diswyddo staff heblaw swyddi uwch-swyddi, gan gynnwys y Swyddog Llywodraethu;
 - (e) penderfynu, ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd, ar weithgareddau academiaidd y Sefydliad, a phenderfynu ar ei weithgareddau eraill;
 - (f) paratoi amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant i'w hystyried a'u cymeradwyo gan y Bwrdd, a rheoli cyllidebau ac adnoddau o fewn yr amcangyfrifon a gymeradwywyd gan y Bwrdd; a
 - (g) cadw disgyblaeth ar y myfyrwyr ac, o fewn y rheolau a'r gweithdrefnau y darperir ar eu cyfer o fewn yr Erthyglau hyn, gwahardd neu ddiswyddo myfyrwyr ar sail disgyblu a gweithredu penderfyniadau i ddiarddel myfyrwyr am resymau academiaidd.
- (3) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Erthyglau hyn, cyfrifoldebau cyffredinol y Bwrdd a chyfrifoldebau'r Pennaeth/Prif Weithredwr, y Bwrdd Academiaidd (os oes un) fydd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer cynghori'r Pennaeth/Prif Weithredwr ar safonau, cynllunio, cydlynu, datblygu a goruchwyllo gwaith academiaidd y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys trefniadau ar gyfer derbyn, asesu ac arholi myfyrwyr a'r gweithdrefnau ar gyfer diarddel myfyrwyr am resymau academiaidd.

Dirprwyo Swyddogaethau a Phwyllgorau

4. (1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r erthygl hon, gall y Bwrdd sefydlu pwyllgor o'r Bwrdd at unrhyw ddiben neu swyddogaeth, ac eithrio'r swyddogaethau hynny a neilltuwyd mewn manau eraill i'r Pennaeth/Prif Weithredwr neu'r Bwrdd Academiaidd. Gall y Bwrdd ddirprwyo'r pŵerau i:
- (a) bwyllgor o'r Bwrdd;
 - (b) y Cadeirydd (neu yn ei absenoldeb, yr Is-gadeirydd); neu
 - (c) Y Pennaeth/Prif Weithredwr.
- (2) Y Bwrdd fydd yn penderfynu ar nifer yr aelodau fydd i unrhyw bwyllgor a sefydlir o dan yr erthygl hon, ac ar ba delerau y maent i fod yn y swydd a'i gadael.
- (3) Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo Cylch Gorchwyl yn pennu cylch gwaith, gweithdrefnau a phŵerau dirprwyedig pob un o'i bwyllgorau. Bydd y Cylch Gorchwyl hwn ar gael i'r cyhoedd.
- (4) Bydd y Bwrdd yn sefydlu Pwyllgor Chwilio i roi cyngor ar:
- (a) benodi aelodau'r Bwrdd;
 - (b) penodi aelodau allanol;
 - (c) unrhyw faterion sy'n ymwneud ag aelodaeth a phenodiadau y mae'r Bwrdd yn eu cyfarwyddo ato.
- (5) Ni ddylai'r Bwrdd benodi unrhyw berson yn aelod o'r Bwrdd heb ystyried cyngor ac argymhellion y Pwyllgor Chwilio yn gyntaf.

- (6) Bydd y Bwrdd yn sefydlu Pwyllgor Archwilio i gynghori ar faterion sy'n ymwneud â threfniadau archwilio a rheolaeth fewnol. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys o leiaf dri aelod o'r Bwrdd, ac eithrio'r aelodau sy'n staff neu'n fyfyrwr a'r Prifathro / Prif Weithredwr. Ni all Cadeirydd y Gorfforaeth fod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio.
- (7) Bydd y pwyllgor Archwilio yn gweithredu yn unol ag unrhyw ofynion a bennir gan Lywodraeth Cymru.
- (8) Gall unrhyw bwyllgor a sefydlwyd gan y Bwrdd (ac eithrio'r Pwyllgor Adrodd, y Pwyllgor Arbennig neu unrhyw bwyllgor arall sy'n ymwneud â disgyblu neu ddiswyddo staff y sefydliad fel sy'n ofynnol o dan erthyglau 9 a 10), gynnwys unigolion nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd .
- (9) Ni ddylai'r Bwrdd ddirprwyo'r cyfrifoldebau canlynol:
 - (a) Penderfynu ar gymeriad addysgol a chenhadaeth addysgol y sefydliad.
 - (b) Cymeradwyo'r amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant.
 - (c) Y cyfrifoldeb dros sicrhau solfedd a chynaliadwyedd ariannol y sefydliad a'r Bwrdd a diogelu eu hasedau.
 - (d) Penodi'r Pennaeth ac i'r swyddi uwch, gan gynnwys y Swyddog Llywodraethu.
 - (e) Y cyfrifoldeb dros wrando ar yr apêl yn erbyn diswyddo'r Pennaeth neu'r uwchswyddogion, gan gynnwys y Swyddog Llywodraethu (lle mae'r Swyddog Llywodraethu yn aelod o staff ac yn destun diswyddiad yn ei rôl fel aelod o'i staff).
 - (f) Addasu neu ddirymu'r Erthyglau hyn.
- (10) Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'i bolisi ynglŷn â mynychu cyfarfodydd pwyllgor gan bobl nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor hwnnw.
- (11) Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'i bolisi ar gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd pwyllgor.
- (12) Gall y Pennaeth/Prif Weithredwr ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau, heblaw am reoli cyllideb ac adnoddau, i aelodau priodol o'r staff. Caiff y dirprwyaethau o'r fath a'u graddau eu hadolygu a'u cymeradwyo o bryd i'w gilydd gan y Bwrdd.

Penodi a rhoi dyrchafiad i ddeiliaid swyddi uwch

- 5. (1) Bydd pob aelod o staff y sefydliad, gan gynnwys y Pennaeth, Is-Benaethiaid a Swyddog Llywodraethu, yn gwasanaethu o dan gontract cyflogaeth gyda'r Gorfforaeth neu, os yw'n berthnasol, ei is-gwmnïau.
- (2) Os bydd swydd uwch yn dod yn wag, bydd y Bwrdd yn hysbysebu'r swydd wag trwy gyhoeddiadau priodol a ddsberthir ledled y DU a dulliau ar-lein priodol.
- (3) Wrth recriwtio i swydd uwch, bydd y Bwrdd yn penodi panel dethol fel a ganlyn:
 - (a) **Recriwtio'r Pennaeth/Prif Weithredwr** - o leiaf pum aelod o'r Bwrdd, i gynnwys y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.

- (b) **Recriwtio i unrhyw swydd uwch arall** - y Pennaeth/Prif Weithredwr, y Cadeirydd, Is-gadeirydd ac un aelod arall o'r Bwrdd.
- (4) Bydd y panel dethol yn:
- a) penderfynu ar y trefniadau ar gyfer dewis ymgeiswyr ar gyfer cyfweliad;
 - b) cyfweld â'r ymgeiswyr hynny a ddedholwyd; a
 - c) gwneud argymhelliad i'r Bwrdd am benodi un o'r ymgeiswyr a gyfwelwyd (os ydynt yn ei ystyried yn briodol).
- (5) Os bydd y Bwrdd yn cymeradwyo'r argymhelliad, penodir yr ymgeisydd a argymhellir gan y panel dethol, yn amodol ar y gwiriadau arferol.
- (6) Os na all y panel dethol gytuno ar argymhelliad ar gyfer penodi, neu os nad yw'r Bwrdd yn cymeradwyo eu hargymhelliad, gall y Bwrdd ofyn i'r panel dethol ailadrodd y camau a nodir ym mharagraff (4), gyda neu heb ail-hysbysebu'r swydd wag yn gyntaf.
- (7) Gall y Bwrdd benodi aelod o staff i weithredu dros dro fel deiliad swydd uwch neu fel Pennaeth/Prif Weithredwr os bydd swydd wag neu absenoldeb dros dro. Bydd aelod staff a benodir ar y sail honno yn meddu ar bob un o ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd y maent yn gwasanaethu ynddi dros dro. Mae unrhyw gyfeiriad yn yr Offeryn Llywodraethu neu yn yr Erthyglau hyn at y Pennaeth/Prif Weithredwr neu at ddeiliaid swydd uwch, yn cynnwys person a benodwyd yn unol â'r paragraff hwn.

Ymddygiad y Staff

6. Yn dilyn ymgynghoriad priodol, bydd y Bwrdd yn cymeradwyo polisiau sy'n ymwneud ag ymddygiad a disgyblaeth y staff.

Rhyddid Academaidd

7. Wrth gymeradwyo polisiau o dan erthygl 6, bydd y Bwrdd yn ystyried yr angen i sicrhau bod gan staff academaidd a gyflogir gan y sefydliad ryddid o fewn y gyfraith, i gwestiynu a phrofi doethineb gonfensiynol ac i leisio barn newydd, dadleuol neu amhoblogaidd, heb osod eu hunain mewn perygl o golli eu swyddi neu unrhyw freintiau y maent yn eu mwynhau fel aelod o staff.

Gwahardd Staff Dros Dro

8. (1) Gall y Cadeirydd, neu yn ei absenoldeb, yr Is-Gadeirydd, wahardd deilydd swydd uwch o'r gwaith, gyda thâl, oherwydd camymddygiad neu reswm dilys arall. Rhaid hysbysu'r Bwrdd am y gwaharddiad cyn pen dau ddiwrnod gwaith neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol.
- (2) Gall unrhyw un o'r Is-Benaethiaid awdurdodi gwaharddiad ar unrhyw aelod o staff heblaw am ddeiliaid swyddi uwch, yn unol â'r polisi a'r weithdrefn ddisgyblu berthnasol a gymeradwywyd.

- (3) Pennir pob gweithdrefn ar gyfer gwahardd staff o dan baragraff (2) mewn rheolau a gymeradwyir gan y Bwrdd ar ôl ymgynghori â'r staff. Bydd rheolau o'r fath yn cynnwys manylion y broses apelio.

Diswyddo Deiliaid Swyddi Uwch

9. (1) Bydd y Bwrdd, ar ôl ymgynghori â staff, yn gwneud rheolau fydd yn pennu'r gweithdrefnau ar gyfer disgyblu a diswyddo deiliaid swyddi uwch ac ystyried unrhyw apêl. Rhaid i unrhyw reolau o'r fath ymgorffori darpariaethau'r erthygl hon a'r egwyddor o gyfiawnder naturiol. Bydd unrhyw bwyllgor a gynullir i fynd i'r afael â'r materion hyn yn dilyn y gweithdrefnau a nodir yn y polisi a'r weithdrefn a gymeradwywyd.
- (2) Bydd y Bwrdd yn cynnull Pwyllgor Adrodd i archwilio'r achos dros ddiswyddo. Bydd y Pwyllgor Adrodd yn gweithredu yn unol â'r rheolau a wnaed o dan 9(1) a Chylch Gorchwyl a gymeradwywyd.
- (3) Bydd y Bwrdd yn galw Pwyllgor Arbennig i ystyried adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Adrodd ac i wneud penderfyniad ar yr achos dros ddiswyddo. Bydd y Pwyllgor Arbennig yn gweithredu yn unol â rheolau a wnaed o dan 9(1) a Chylch Gorchwyl a gymeradwywyd.
- (4) Bydd y Pwyllgor Arbennig yn cymryd unrhyw gamau y mae'n eu hystyried yn briodol; gall hyn gynnwys diswyddo. Bydd unrhyw benderfyniad gan y pwyllgor yn cael ei roi yn ysgrifenedig i'r uwch-swyddog dan sylw. Bydd cadarnhad o ddiswyddiad yn cynnwys gwybodaeth am yr hawl i apelio, ond bydd y diswyddiad yn weithredol, ni waeth beth fo'n digwydd o ran apêl arfaethedig.
- (5) Bydd apêl yn erbyn diswyddo gan ddeiliad swydd uwch yn cael ei chlywed gan y Bwrdd mewn cyfarfod apêl y gwahoddir y deiliad uwch swydd iddo, yn unol â pholisi perthnasol y Gorfforaeth. Ni fydd modd i aelodau'r Pwyllgor Adrodd na'r Pwyllgor Arbennig nac unrhyw aelod o staff neu fyfyrwyr gymryd rhan yn y cyfarfod Bwrdd hwnnw.
- (6) Rhaid i'r Bwrdd gadarnhau ei benderfyniad ar yr apêl yn ysgrifenedig.

Diswyddo Staff heblaw am Ddeiliaid Swyddi Uwch

10. (1) Bydd y Bwrdd, ar ôl ymgynghori â staff, yn cymeradwyo rheolau a nodir mewn polisi sy'n nodi'r gweithdrefnau ar gyfer diswyddo staff perthnasol ac ystyried unrhyw apêl. Rhaid i unrhyw reolau o'r fath ymgorffori darpariaethau'r erthygl hon a'r egwyddor o gyfiawnder naturiol.
- (2) Y Pennaeth fydd yn gwneud y penderfyniad i ddiswyddo wedi dilyn y weithdrefn a nodir yn y polisi a gymeradwywyd. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig i'r aelod o staff dan sylw. Bydd cadarnhad o ddiswyddiad yn cynnwys gwybodaeth am yr hawl i apelio, ond bydd y diswyddiad yn weithredol, ni waeth beth fo'n digwydd o ran apêl arfaethedig.

- (3) Os bydd yr aelod o staff yn arfer eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i'w diswyddo, bydd y Bwrdd yn cynnull Pwyllgor Apêl a gwahoddir yr aelod o staff i gyfarfod o'r pwyllgor hwnnw yn unol â'r polisi cymeradwy perthnasol.
- (4) Bydd penderfyniad y Pwyllgor Apêl yn cael ei gadarnhau ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Gwahardd a diswyddo'r Swyddog Llywodraethu

11. Yn achos Swyddog Llywodraethu sydd hefyd yn aelod o staff, ni fydd gofynion erthyglau 9 a 10 yn rhagfarnu hawl y Bwrdd i weithredu mewn perthynas â gwahardd neu derfynu penodiad yr unigolyn o dan gymal 6 yr Offeryn Llywodraethu yn unol ag unrhyw gytundeb ar wahân sy'n ymwneud â'i benodiad fel Swyddog Llywodraethu.

Gweithdrefnau Cwyno

12. Ar ôl ymgynghori â staff, bydd y Bwrdd yn cymeradwyo rheolau sy'n pennu gweithdrefnau y gall staff eu dilyn er mwyn gwneud iawn am unrhyw gwynion mewn perthynas â'u swydd.

Myfyrwyr

13. (1) Mae unrhyw Undeb Myfyrwyr i redeg a rheoli ei fusnes a'i gronfeydd ei hun yn unol â chyfansoddiad a gymeradwyir gan y Bwrdd a chyflwyno cyfrifon archwiliedig bob blwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio.
- (2) Ni ellir diwygio neu ddiddymu cyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, heb gymeradwyaeth y Bwrdd.
- (3) Ar ôl ymgynghori â rheolwyr a chynrychiolwyr y myfyrwyr, bydd y Bwrdd yn cymeradwyo rheolau ynghylch ymddygiad myfyrwyr, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer gwahardd a diddymu.

Materion Ariannol ac Archwilio

14. (1) Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo'r polisi y penderfynir ar yr hyfforddiant a'r ffioedd eraill sy'n daladwy i'r Gorfforaeth (yn amodol ar unrhyw delerau ac amodau ynghlwm wrth grantiau, benthyciadau neu daliadau eraill a wneir gan Lywodraeth Cymru neu gyrrff eraill).
- (2) Bydd y Bwrdd yn cydweithredu ag unrhyw berson(au) a awdurdodwyd gan Lywodraeth Cymru i archwilio dychweliadau a bydd yn caniatáu i unrhyw berson(au) gael mynediad at unrhyw ddogfennau neu gofnodion a gedwir gan y Sefydliad, gan gynnwys cofnodion a storir yn electronig.

Archwilio Mewnol

15. (1) Bydd y Bwrdd yn penodi archwilwyr mewnol i archwilio a gwerthuso systemau rheolaeth ariannol mewnol i sicrhau bod systemau o'r fath yn hyrwyddo defnydd priodol, economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r Gorfforaeth.
- (2) Ni all y personau hynny a benodwyd yn archwilwyr mewnol dan baragraff (1) hefyd weithredu fel archwilwyr allanol o dan erthygl 16.

Cyfrifon Blynyddol

16. (1) Bydd y Gorfforaeth yn cadw cofnodion cyfrifo priodol ac yn paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi cofnod gwir a chywir ac yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.
- (2) Bydd y Bwrdd yn penodi archwilwyr allanol i archwilio'r cofnodion cyfrifo a'r datganiadau ariannol. Ni all y personau hynny a benodwyd yn archwilwyr allanol hefyd weithredu fel archwilwyr mewnol o dan erthygl 15.
- (3) Bydd penodi archwilwyr a chynnal y gwaith archwilio yn cael ei wneud yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.
- (4) Os caiff y Gorfforaeth ei diddymu, bydd y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn dod i ben ar ddyddiad y diddymiad. Os yw'n briodol, gall y Bwrdd, gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, benderfynu bod y ddwy flynedd ddiwethaf i'w trin fel un flwyddyn ariannol at ddibenion yr erthygl hon. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Bwrdd yn cydymffurfio â gofynion deddf *Diddymu Rheoliadau Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Cynigion a Chyrrff Rhagnodedig) (Cymru) 2014* '.

Gwneud Rheolau

17. (1) Mae gan y Bwrdd y pŵer i wneud unrhyw reolau addas, mewn perthynas â materion llywodraethu ac ymddygiad y sefydliad. Mae rheolau o'r fath yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Offeryn Llywodraethu a'r Erthyglau hyn.
- (2) Rhoddir copi o'r Erthyglau hyn, yr Offeryn Llywodraethu ac unrhyw reolau a wneir fel y'u disgrifir ym mharagraff (1) i bob aelod ar adeg eu penodi a byddant ar gael i'r cyhoedd.